



CYNGOR BRO MORGANNWG
ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19

CRYNODEB CYHORDDUS

Cymunedau
Cryf â
Dyfodol
Disglair

Hydref 2019

Beth yw'r Adroddiad Blynyddol?

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (MLIL) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLICD) yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas â gosod amcanion a dyletswyddau adrodd. O dan DLICD, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Llesiant blynyddol erbyn 31 Mawrth ac adolygu'r rhain yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. O dan MLIL, mae'n ofynnol i ni hefyd gyhoeddi dwy ddogfen bob blwyddyn: y gyntaf yw Cynllun Gwella sy'n edrych i'r dyfodol, sy'n nodi ein blaenoriaethau gwella (a elwir yn Amcanion Gwella) ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod; a'r ail yw **Adroddiad Blynyddol** sy'n adlewyrchu'n ôl ar berfformiad y Cynllun Gwella. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn edrych yn ôl ar sut y gwnaethom o ran cyflenwi ein blaenoriaethau gwella (Amcanion Llesiant) fel y'u nodwyd yn Rhan 1 Cynllun Gwella Bro Morgannwg ar gyfer 2018/19.

Sut wnaethom ni yn erbyn ein Hamcanion Llesiant (Gwella)?

Ein statws COG cyffredinol i Gynllun Corfforaethol 2018/19 yw GWYRDD




Priodolwyd **statws perfformiad GWYRDD** i 2 o'n 4 Canlyniad Llesiant Cynllun Corfforaethol gan adlewyrchu'r cynnydd cryf a wnaed i gyflawni ein blaenoriaethau gwella ar gyfer 2018/19. Cyflawnodd Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac yn Ffynnu a Bro Uchelgeisol a Bywiog o Ran Diwylliant statws **OREN**. Gwnaethom gynydd rhagorol o ran cefnogi gwasanaethau'r Cyngor wrth weithredu ei Amcanion Llesiant (Gwella) ac adlewyrchir hyn yn y statws perfformiad Gwyrdd a briodolwyd ar ddiwedd y flwyddyn

Rydym wedi cyflenwi'r mwyafrif o weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2018/19 ond rydym yn cydnabod bod amseroedd heriol o'n blaenau. Mae adnoddau'n lleihau, ond mae'r galw am wasanaethau yn dal i gynyddu ac mae effaith cyni yn parhau i gael ei deimlo. Mae'r llwyddiant a gyflawnwyd hyd yma yn cynrychioli dechrau'r hyn a fydd yn rhaglen hir o fentrau a anelir at weledigaeth hirdymor y Cyngor – sef cymunedau cryf â dyfodol disglair.

Ein cyfraniad tuag at y nodau Llesiant cenedlaethol

Strwythurwyd ein Cynllun Corfforaethol o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n seiliedig ar bedwar Canlyniad Llesiant ac wyth Amcan Llesiant. Mae hyn yn ffurfio fframwaith y Cynllun Corfforaethol y gellir ei alinio mewn ffordd drawsbynciol â saith Nod Llesiant y Ddeddf. Mae ein hamcanion Llesiant yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni ac maent yn ymdrin â materion uniongyrchol yn ogystal â chael buddion tymor hwy. Wrth gyflawni'r amcanion hyn rydym yn **cyfrannu at y saith Nod Llesiant** ac yn sicrhau bod anghenion dinasyddion y Fro o bob oed a chenedlaethau'r dyfodol ar y rheng flaen wrth ddarparu gwasanaethau.




At ei gilydd, **gwnaed cynnydd cryf yn ystod tair blynedd gyntaf o gyflenwi ein Cynllun Corfforaethol**, a thrwy hynny cyfranwyd yn gadarnhaol at y nodau Llesiant cenedlaethol yng Nghymru. Mae gennym flwyddyn ar ôl o'r Cynllun ac rydym yn parhau i gyflenwi ein blaenoriaethau tymor hir gyda'r nod o adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair.

Sut oedd ein perfformiad yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill Cymru?


Bob blwyddyn, mae'r Uned Ddata Llywodraeth Leol (Data Cymru erbyn hyn) yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad awdurdodau lleol ar ystod o wasanaethau, gan ei gwneud hi'n bosibl cymharu perfformiad y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae ymarfer meincodi mewnol yn cadarnhau ein bod yn parhau i fod **yr awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru am y bumed flwyddyn yn olynol**.

Ar hyn o bryd, mae 9 allan o 19 dangosydd (47%) yn y chwarter uchaf o berfformwyr yng Nghymru. Roedd y rhain mewn meysydd fel atal digartrefedd, cyrhaeddiad disgyblion ar lefel TGAU, pobl ifanc y gwyddys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, eiddo preifat gwag a ddaeth yn ôl i ddefnydd ac ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden. O'u cymharu â'r llynedd, dangosodd 64% o'r dangosyddion welliant mewn perfformiad sy'n uwch na'r gwelliant o 46% a wnaed yn 2016/17.

Ar y cyfan, perfformiodd y Fro yn well na chyfartaledd Cymru ym mhob dangosydd ond 2 (89%) felly rydym yn cydnabod y gellir gwneud gwelliannau i'r meysydd hynny lle'r ydym yn perfformio yn y chwarteri is i'r gwaelod o'u cymharu â gweddill Cymru. Mae'r ddau faes hwn yn ymwneud â chyflwr ein ffyrdd.



Ein Cyllideb




Ein cyllideb refeniw flynyddol ar gyfer 2018/19 oedd £222.053 miliwn. Mae hyn yn cynnwys 58% o Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Cymru, 20% Treth Gyngor, 11% ffioedd a thaliadau, a'n cyfran o'r gronfa Cyfraddau Annomestig (11%). Ar ddiwedd y flwyddyn, nododd y Cyngor **sefyllfa adennill costau ar gyfer ei gyllideb refeniw**. Gwariwyd £222.053m ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus am y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019. Gyda phoblogaeth o 130,690, mae hyn yn cyfateb i £1,699 y pen (£1,673 yn 2017/18). Roedd Dysgu a Sgiliau a Gofal Cymdeithasol yn cyfrif am 75.4% o wariant cyllidebol y Cyngor yn 2018/19, gan gyflenwi ein blaenoriaethau allweddol fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol (73.5% yn 2017/18).

Mae gennym hanes rhagorol o ddod â chyfanswm gwariant i mewn ar y gyllideb, neu'n is, ac o ganlyniad, rydym wedi gallu defnyddio hyblygrwydd balansau i helpu i gynnal codiadau Treth Gyngor isel o'i gymharu â gweddill Cymru, amddiffyn gwasanaethau a darparu cyllid ychwanegol gwerthfawr i'r rhaglen gyfalaf pan fo angen. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn yr hinsawdd sydd ohoni o gyllidebau yn lleihau, mae angen gwneud penderfyniadau anodd mewn perthynas â darparu gwasanaethau fel y gellir cynnwys gwariant o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Er bod dulliau amgen yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau cynaliadwydd gwasanaethau gwerthfawr ar gyfer y dyfodol fel rhan o raglen drawsnewidiol y Cyngor, mae'n parhau i fod yn fwyfwy heriol diogelu darpariaeth barhaus yr holl wasanaethau gwerthfawr, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod y Fro yn parhau i fod yn un o'r cynghorau a ariennir isaf yng Nghymru.

Beth ddywedodd ein Harchwilwyr amdanom

Daeth ein Hadroddiad Gwella Blynyddol 2018/19 gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod y Cyngor, ar y cyfan, yn **cwrdd â'i ofynion mewn perthynas â gwelliant parhaus**. Amlygodd hefyd fod y Cyngor: wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau; wedi cydymffurfio â'i dyletswyddau gwella ac adrodd statudol; a bod ganddo drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella mewn perthynas â diogelu plant, Safon Ansawdd Tai Cymru a datblygu 14 maes ymhellach mewn perthynas ag arolygiad CIW o Wasanaethau Plant. Mae gwaith ar y gweill i ymdrin â'r cynigion hyn.




Mae gan ddinasyddion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da ac maent yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol

Amcan Gwelliant 1: Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol

Mae ymdrin â thlodi yn flaenoriaeth allweddol i'n Cyngor a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro (BGC). Trwy weithio tuag at yr amcan hwn gallwn sicrhau bod preswylwyr ac ymwelwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhan o'r gymuned leol.

Amcan Gwelliant 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel

Mae cael cartref gweddus a theimlo'n ddiogel yn y gymuned yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at ymdeimlad pobl o lesiant. Gwneir gwaith i wella mynediad i ansawdd tai ynghyd â hyrwyddo diogelwch cymunedol. Trwy gadw ein stoc dai ein hunain, bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod gan breswylwyr fynediad i gartrefi o safon.



Ein statws COG cyffredinol ar gyfer 'Bro Ddiogel a Chynhwysol' yw GWYRDD

Ein cyflawniadau yn ystod 2018/19



- Yn unol â'n Strategaeth Ddigidol, rydym wedi parhau i wella sgiliau digidol preswylwyr drwy'r fenter hir-sefydledig 'Cael y Fro Ar-Lein' gyda sesiynau galw heibio digidol rheolaidd yn cael eu cynnal ledled y Fro. Yn ystod y flwyddyn, cymerodd 763 o denantiaid ran mewn mentrau cynhwysiant digidol gyda 707 o'r rhain dros 55+.
- Mae 27 o hyrwyddwyr digidol gwirfoddol wedi cyfrannu 1138 oriau i "sesiynau galw heibio" ledled y sir. Mae 307 o gyfranogwyr unigryw wedi mynychu'r sesiynau hyn gyda 100% yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio dyfais ddigidol.
- Rydym yn ymdrin â phryderon ynghylch Credyd Cynhwysol: yn ystod y flwyddyn ymwelodd ein Cynghorwyr Arian â 1,306 o gartrefi (cynnydd o 23% o'i gymharu â'r llynedd) a llwyddo i sicrhau £308,673 i'n tenantiaid trwy fudd-daliadau ychwanegol, biliau is a grantiau. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at atal digartrefedd gyda 631 o denantiaethau parhaus eleni, gwelliant pellach ar 572 yn 2017/18.
- Mae camau atal cadarnhaol yn dal i fod yn llwyddiannus wrth atal digartrefedd mewn 71% o achosion. Cynorthwywyd y llwyddiant hwn gan wasanaethau cymorth ychwanegol fel Gwalia a Gofal Shelter Cymru ac yn fwy diweddar Pobl, sy'n parhau i fod yn hanfodol bwysig wrth helpu i liniaru'r heriau y mae pobl yn eu profi.
- Cofrestrodd dros 350 o bobl ar raglen Cymunedau am Waith y Fro a chynorthwywyd 98 o bobl i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy o ganlyniad i'r ddarpariaeth a gynigwyd. Mae ein tîm Buddsoddi Cymunedol hefyd wedi cefnogi 31 o denantiaid i gyflogaeth eleni.
- Ers lansio'r gronfa Grant Cymunedau Cryf ym mis Awst 2017, mae grantiau gwerth £564,838 wedi'u dyrannu i 43 o broiectau ledled Bro Morgannwg. Mae'r broiectau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd ac ystod y gwasanaethau sydd ar gael i gymunedau yn y Fro wrth ddod â phobl ynghyd yn agos at eu cartref.



- Cynhyrchodd bancio amser 1,660 o oriau, a nododd 86% o wirfoddolwyr deimlad o fwy o hunan-barch, dywedodd 87% eu bod yn teimlo'n fwy hyderus, a dywedodd 87% eu bod wedi gwneud ffrindiau newydd trwy'r project.
- Er ein bod wedi cyflawni cydymffurfriad 100% â Safonau Ansawdd Tai Cymru, rydym yn parhau i gynnal safonau ac yn ail-gynnig uwchraddiadau gan sicrhau bod ein 3,876 o gartrefi o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion ein tenantiaid.
- Roedd 95% o'r bobl a dderbyniodd Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn teimlo bod y cymorth wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain. Mae lefel boddhad o dros 90% yn cael ei ystyried yn eithriadol o gofio natur gymhleth y gwaith sy'n cael ei wneud.
- Yn ystod 2018/19 buom yn gweithio'n llwyddiannus gyda'n partneriaid i ddarparu 98 o gartrefi fforddiadwy, cynaliadwy ychwanegol yn y Fro. Eleni hefyd caniatwyd 43%, sef cyfran fawr o unedau tai fforddiadwy, yn cael eu caniatáu fel cyfran o'r holl dai. Mae'r ffigur hwn yn uwch na tharged y Cynllun Datblygu Lleol o 30%.
- Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, mae'r Fro yn cynnig benthyciadau di-log, i helpu perchnogion tai i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gwella tir y cyhoedd, a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, fandaliaeth a thipio anghyfreithlon. Yn ystod y 12 mis diwethaf, daethpwyd â 111 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd gan ein rhoi yn y chwarter uchaf am berfformiad o'i gymharu â'r llynedd. Hefyd, proseswyd 7 o fenthyciadau tai newydd gan arwain at i 5 cartref newydd gael eu creu yn y Fro.
- Mae ein Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir wedi parhau i gynnal archwiliadau wedi'u rhaglennu yng nghyswllt hylendid, glendid sefydliadau bwyd a llygredd amgylcheddol. Arolygwyd 100% o fusnesau risg uchel gan y gwasanaeth ac aseswyd bod 96% o sefydliadau bwyd yn 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd, gwelliant pellach ar berfformiad y llynedd.
- Gwnaethom ddarparu mesurau diogelwch cartref i 99 o gartrefi, gan roi hyder i bobl aros yn eu cartref eu hunain. Nododd 100% o ddioddefwyr cam-drin domestig a ddefnyddiodd y gwasanaeth eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'r gwaith hwn.
- Mae ein menter Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sydd wedi'u rheoli'n dda i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Derbyniodd 99% o blant cymwys Dechrau'n Deg y cynnig gofal plant sy'n ceisio rhoi dechrau gwell mewn bywyd i blant, gan wella datblygiad, iechyd a llesiant plant wrth baratoi ar gyfer yr ysgol. Yn ystod 2018/19, cyflawnodd 83% y canlyniadau disgwyledig (Canlyniad 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Ein heriau yn y dyfodol



- Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i hyrwyddo cynhwysiant digidol ar draws grwpiau wedi'u targedu, ac er bod cynnydd wedi'i wneud, rydym yn cydnabod bod ffordd i fynd eto i wella hunangynhaliadau ar-lein. Yr allwedd i hyn fydd sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid i rannu gwybodaeth ac adnoddau, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella effeithlonrwydd a hygyrchedd gwasanaethau i'r holl ddinasyddion.
- Bydd lleihau cyllidebau yn effeithio ar ein gallu i gynllunio'n effeithiol yn y tymor canolig i'r tymor hwy, a allai o bosibl beryglu hyfywedd a llwyddiant posibl unrhyw gynlluniau cymunedol yn y dyfodol, yn enwedig mewn ardaloedd adfywio â diweithdra uchel. Gallai'r ansicrwydd a'r anallu i reoli'r newid hwn gael effaith niweidiol ar sefydlu cyfleoedd cyflogaeth mwy cynaliadwy yn y tymor hwy ac yn y pen draw gyfyngu ar ein gallu i leihau tlodi.
- Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol a'r symudiad dilynol o daliadau wythnosol i un swm misol sengl wedi achosi anawsterau i rai pobl sydd eisoes ar incwm isel. Ar hyn o bryd mae 82% o'n tenantiaid mewn ôl-ddyledion rhent (o ganlyniad i'r trawsnewid) ac rydym yn monitro'r achosion hyn yn agos iawn, gan ddarparu cefnogaeth trwy gyngor ariannol a chymorth pwrpasol parhaus sy'n gysylltiedig â thai, yn ogystal â chysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- Mae prinder tai a nodwyd yn y Fro angen 576 o dai fforddiadwy ychwanegol y flwyddyn hyd at 2022. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i ymdrin â hyn; fodd bynnag, mae effaith Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i ychwanegu haen o ansicrwydd dros raglen adeiladu tai y Cyngor a gallai gyfrannu at brinder llafur yn ogystal ag anawsterau wrth gyflenwi deunyddiau. Rydym yn parhau i fonitro'r farchnad a chymryd camau priodol i liniaru'r effaith trwy ymgysylltu â chontractwyr lleol a dod o hyd i ddeunyddiau amgen lle bo angen.




Mae gan Fro Morgannwg economi gref a chynaliadwy ac mae'r amgylchedd lleol yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Amcan Gwelliant 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth

Parhau i adeiladu ar ein hanes llwyddiannus o gyflawni projectau adfywio ledled y Fro wrth weithio gyda'n partneriaid fel rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i wneud y mwyaf o gyfleoedd i greu swyddi.



Amcan Gwelliant 4: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd unigryw ac yn anelu at ei warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol tra'n mwynhau ei harddwch a'i amrywiaeth. Mae mabwysiadu dull mwy cynaliadwy o ddatblygu yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau o dir at ddibenion tai, cyflogaeth, manwerthu, twristiaeth, trafnidiaeth, mwynau, gwastraff a'r gymuned nawr ac yn y dyfodol.



Ein statws COG cyffredinol ar gyfer 'Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac yn Ffynnu' yw OREN

Ein cyflawniadau yn ystod 2018/19

-  Mae'r Fro yn parhau i ffynnu fel cyrchfan lwyddiannus i ymwelwyr gydol y flwyddyn, fel y gwelwyd yn yr arolwg STEAM diweddaraf (2018), a ddangosodd bod niferoedd o ymwelwyr i'r Fro wedi cynyddu o 4.16 miliwn yn 2017 i 4.26 miliwn yn 2018, gan ddod â £250.07 miliwn o refeniw i'r ardal a chefnogi 3,000 o swyddi.
-  Mae rhaglen Penwythnosau Ynys y Barri yn parhau i ddenu nifer uchel o ymwelwyr. Denwyd 55,000 o ymwelwyr i'r gyrchfan yn ystod y flwyddyn. Hefyd mynychodd 22,000 o bobl Sioe Bro Morgannwg, mynychodd 15,000 o rymdaith Ceirw y Bont-Faen, a mynychodd 3,000 Raglen Seiniau Haf Pier Penarth.
-  Datgelodd canlyniadau arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid Ynys y Barri yn haf 2018 fod 92% o'r ymwelwyr ag Ynys y Barri yn fodlon ar gyfleusterau ac yn eu graddio naill ai'n "Dda" neu'n "Ardderchog" ac roedd 82% yn dweud eu bod yn debygol o ddychwelyd.
-  Cawsom 7 gwobr am ein mannau arfordirol i gydnabod eu hansawdd uchel; dyfarnwyd Baneri Glas i Fae Whitmore, Southerndown a Marina Penarth gyda'r 2 gyntaf hefyd yn derbyn Gwobrau Glan Môr, ynghyd â Bae Jacksons a Cold Knap.
-  Yn Arolwg Barn y Cyhoedd 2018/19, roedd 99% naill ai'n fodlon neu'n weddol fodlon â'r arfordir treftadaeth a'r llwybrau arfordirol yn y Fro.
-  Er mwyn cefnogi busnesau newydd a lleol a hyrwyddo twf economaidd rydym wedi cyflwyno digwyddiadau a gweithdai ar draws y Fro gan gynnwys 4 digwyddiad cychwyn busnes am ddim a ddenodd 168 o fynychwyr, Theatr Ariannu yn Sioe'r Fro a ddenodd 91 o fynychwyr, 4 digwyddiad Parth Menter. denodd 226 o fynychwyr a chynnal 22 o weithdai Busnes Cymru.
-  Gwnaethom gwblhau gwelliannau i Paget Road a Plassey Square, Penarth o dan y Project Mannau Agored. Roedd y gwaith yn cynnwys gwelliannau i ardal chwarae'r plant, plannu coed a blodau gwyllt, gosod seddi, goleuadau a llwybr igam-ogam. Mae gwelliant y lleoedd cynhwysol hyn wedi cael derbyniad da ac mae o fudd i'r gwahanol gymunedau.
-  Gwnaethom gyflawni cynlluniau gwella trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan gynnwys seilwaith beiciau a gwelliannau i arosfannau bysiau o Weycock Cross i Faes Awyr Caerdydd. Mae 11 o arosfannau bws wedi'u huwchraddio ar hyd coridor yr A48 a 2 ym Mhenarth gyda'r arosfannau sy'n weddill i gael eu huwchraddio yn ystod 2019/20.
-  Mae 67% o wastraff cartref a gasglwyd yn 2018/19 naill ai wedi'i ailddeddfyddio neu ei ailgylchu. Mae'r perfformiad hwn yn uwch na'r targed statudol cyffredol o 64% a pherfformiad y llynedd o 63%. Cyfrannodd cyflwyno cyfyngiadau ar wastraff gweddilliol ar ymyl y palmant ac mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi ochr yn ochr â mentrau presennol fel y Prosiect Gwyrdd a'r Safle Trosglwyddo Gwastraff at y llwyddiant hwn.
-  Roedd dros 9 o bob 10 o breswylwyr yn fodlon â chyfleusterau ailgylchu gwastraff bwyd (95% yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon), cyfleusterau ailgylchu gwastraff gardd (95%), cyfleusterau ailgylchu (94%) a chanolfannau ailgylchu (94%) - Arolwg Barn y Cyhoedd 2018/19.
-  Cyflawnodd 76% o'r priffyrdd a'r tir perthnasol a arolygwyd yn ystod y flwyddyn lefel glendid uchel neu dderbyniol, gwelliant pellach ar 71% y llynedd. Roedd canran y priffyrdd ar lefel dderbyniol o lendid hefyd yn uwch na'r targed gyda 99% o'r priffyrdd a arolygwyd o safon glendid uchel neu dderbyniol.
-  Cadwodd 10 o'n parciau y Faner Werdd bwysig a ddyfernir gan brif elusen amgylcheddol Cymru, Cadw Cymru'n Daclus, tra bod 13 o safleoedd wedi derbyn Gwobr Gymunedol, cydnabyddiaeth o'n parciau a mannau gwyrdd o ansawdd uchel.
-  Rydym yn lleihau ein hallbynnau carbon a'n costau ynni trwy drosi bron i 6,000 o oleuadau stryd mewn ardaloedd preswyl ac ar briffyrdd i LED trwy broiect a ariennir. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau allyriadau CO2 y Cyngor oddeutu 493 tonnall y flwyddyn. Yn ogystal, cyflawnir arbedion trwy gostau ynni is.
-  Sicrhodd y Cyngor £9,840,640 o gyllid ar gyfer buddsoddiad cymunedol trwy gytundebau Adran A106 ynghlwm â chaniatâd cynllunio yn ystod 2018/19. Defnyddir yr arian hwn i ariannu lleoedd ysgol ychwanegol, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus newydd, gwell palmentydd a llwybrau beicio, cynlluniau celf gyhoeddus, uwchraddio i barciau a mannau chwarae i blant, a chyfleoedd ar gyfer hyfforddi a datblygu.
-  Rydym wedi gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, gwirfoddolwyr, grwpiau cadwraeth a thirfeddianwyr i warchod ac adfer ardaloedd o Gwm Elan i sicrhau dyfodol y glöyn byw Brith Brown. Arweiniodd y gwaith hwn, a ddechreuodd ddiwedd y 1990au, at ddyblu nifer y rhywogaethau.
-  Mae'r Cyngor wedi sicrhau mwy na £1.8 miliwn o arian Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth yn y sir a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer projectau fel gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd yn Cardiff Road, Dinas Powys a chylchfan Floodgate i Nash Corner yn Llandŵ. Sicrhawyd grantiau hefyd ar gyfer gwella cyffordd, cyfleoedd trafnidiaeth gynaliadwy a gwelliannau i lwybrau teithio llesol i hyrwyddo cerdded a beicio.
-  Mae cynllun Greenlinks wedi parhau i gynnig gwasanaeth mawr ei angen i ddinasyddion y Fro na allant gael mynediad at dtrafnidiaeth gyhoeddus fel arall. Yn ystod 2018/19 darparodd y gwasanaeth fwy na 10,000 o deithiau i dros 400 o bobl gan atal ynysu cymdeithasol a chefnogi dinasyddion i ddod yn fwy annibynnol.

Ein heriau yn y dyfodol

-  Mae colli cyllid allanol yn parhau i fod yn her allweddol, yn enwedig ar ôl 2020. Rhaid i ni liniaru yn erbyn yr ansicrwydd parhaus sy'n deillio o Brydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd trwy sicrhau cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth i gyflawni projectau adfywio allweddol i'r gymuned leol. Er enghraifft, mae cyllid Cyfalaf Cymunedau Gwledig ar gyfer pob sector yn debygol o ddod i ben yn 2020, gan arwain at bwysau costau ar y Cyngor yn y blynyddoedd dilynol.
- Mae'r Stryd Fawr a chanol trefi ledled y DU yn wynebu heriau enfawr ac nid yw'r Fro yn eithriad. Mae'r dirwedd fasnachu yn newid ond mae cyfleoedd newydd a chyffrous yn dod i'r amlwg. Rydym eisoes wedi dechrau ymgysylltu â pherchnogion busnes i fwyafu'r twf economaidd, cyflogaeth a nifer yr ymwelwyr.
- Mae'r twf traffig cynyddol ym Mro Morgannwg yn parhau i fod yn her i'r Cyngor. Gall mwy o dagfeydd a llygredd, yn enwedig yn y Fro Ddwyreiniol a choridor Bae Caerdydd Penarth, effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd, cynhyrchiant economaidd ac iechyd. At hynny, mae ein rhwydwaith priffyrdd yn ased sy'n dirywio, ac mae angen buddsoddiad parhaus sylweddol.




Mae gan holl ddinasyddion Bro Morgannwg gyfleoedd i gyflawni eu potensial llawn

Amcan Gwelliant 5: Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol

Ein huchelgaais yw sicrhau bod canlyniadau addysg y gorau yng Nghymru a'u bod yn cyfateb i rai'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus Lloegr sydd â phroffiliau cymdeithasol-economaidd tebyg.

Amcan Gwelliant 6: Rhoi gwerth ar ddiwylliant ac amrywiaeth

Rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn ein cymunedau ac yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo cyfle cyfartal a'r iaith Gymraeg. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd annog pobl o bob oed i fwynhau ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw.



Ein statws COG cyffredinol ar gyfer 'Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant' yw OREN

Ein cyflawniadau yn ystod 2018/19



- Trwy'r Rhaglen Ad-drefnu a Buddsoddi Ysgolion a Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, rydym wedi cyflenwi nifer o gynlluniau yn llwyddiannus eleni. Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd Adeilad Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol Gynradd Romilly, a helpodd gwelliannau ac ailfodelu mewnol Ysgol Gynradd Colcot i ymdrin â'r lleoedd gwag trwy leihau lleoedd ysgol i 315.



- Mae ein dull o ddatblygu ysgolion hunan-wella wedi cyfrannu at sicrhau nad oes ysgolion yng nghategori dilynol statudol Estyn am y cyfnod. Barnwyd bod 100% o'r ysgolion a arolygwyd yn dda neu'n well gan Estyn ym mhob un o'r 5 dyfarniad.
- Rydym yn un o'r perfformwyr chwarter uchaf yng Nghymru o ran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd, gyda phresenoldeb o bron i 95%.



- Rydym yr awdurdod sy'n perfformio orau yng Nghymru (blwyddyn academiaidd 2017/18) mewn perthynas â chanlyniadau TGAU. Cyflawnodd dros chwarter (27.65%) o ddisgyblion Blwyddyn 11 bump neu fwy o raddau TGAU gradd A* i A (cynnydd o 3% ar y flwyddyn flaenorol). Sicrhodd Ysgol Gyfun y Bont-faen ei set orau o ganlyniadau gyda 48% o ddisgyblion yn cyflawni 5 gradd A* -A neu fwy.



- Rydym yr awdurdod sy'n perfformio orau mewn perthynas â chyrhaeddiad trothwy Lefel 2. Cyflawnodd 66% o ddisgyblion Blwyddyn 11 y trothwy lefel 2 gan gynnwys graddau TGAU A* - C mewn Saesneg, Mathemateg ac iaith gyntaf Gymraeg.



- Tîm Dysgu Cymunedol Oedolion y Fro yw'r darparwr sy'n perfformio orau yn y rhanbarth gyda chyfradd llwyddiant o 91% i ddysgwyr â blaenoriaeth ar gyrsiau dysgu cymunedol oedolion achrededig. Dyfarnwyd Gradd Werdd i'r ganolfan gan Archwiliad y Drwydded Yrru ECDL i gydnabod y canlyniadau a gyflawnwyd gan ddysgwyr yn ystod blwyddyn academiaidd 2017-18.

- Rhoesom fwy o gyfleoedd i breswylwyr, gan gynnwys plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion sy'n ddysgwyr, i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cymerodd dros 9,000 o blant, pobl ifanc ac oedolion ran mewn amrywiol weithgareddau trwy gyfrwng Cymraeg a chofrestrodd bron i 400 o ddysgwyr sy'n oedolion newydd mewn cyrsiau Cymraeg yn ystod y flwyddyn.



- Mae canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) wedi parhau i ostwng am yr 11eg flwyddyn yn olynol i 0.5%, gan ein gosod yn y safle brig yng Nghymru am ein perfformiad. Hefyd mae ein perfformiad mewn perthynas â chanran y rhai sy'n gadael blwyddyn 12 sy'n NEET wedi gostwng i 0.39% a gostyngodd blwyddyn 13 i 1.56%.



- Sicrhawyd bron i £135m mewn buddsoddiad cyfalaf i ddarparu rhaglen uchelgeisiol o amgylcheddau dysgu ar gyfer y dyfodol o dan Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Ymhlith y projectau allweddol mae: adeiladau ysgol newydd yn Ysgolion Uwchradd Whitmore a Phencoedtre ac Ysgol Gynrad St Nicolas yr Eglwys yng Nghymru; Canolfan Dysgu a Llesiant; ehangu ac adnewyddu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; ac ehangu Ysgol y Deri.



- Cyflawnodd 83% o blant Dechrau'n Deg o leiaf y canlyniadau disgwylidiedig (canlyniad 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ystod y flwyddyn academiaidd.



- Fel Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall, rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod gennym weithle cynhwysol ar gyfer yr holl staff lesbiaidd, hoyw, bi a thraws. Mae'r Mynegai Cydraddoldeb Gweithle ar gyfer 2018/19 yn ein gosod yn hanner uchaf yr holl sefydliadau yn y DU.



- Penderfynwyd ar 364 o geisiadau cynllunio, gydag 11 ohonynt yn Ganiatâd Adeiladu Rhestredig; hefyd penderfynwyd ar 43 o geisiadau coed; 21 Gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth a 22 Gwaith ar goed sy'n destun i Orchymyn Cadw Coed, sy'n cyfrannu at amddiffyn a gwella treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol y Fro.

- Mynychodd 84% o breswylwyr y Fro ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol, ymhell uwchlaw'r cyfartaledd rhanbarthol o 76% a'r cyfartaledd cenedlaethol o 74% yn ôl data diweddaraf yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

- Mae llyfrgelloedd cymunedol yn parhau i gynyddu'r ystod o gynigion i breswylwyr y Fro, gan ddenu bron i 1.4M o ymwelwyr yn ystod y flwyddyn.

Ein heriau yn y dyfodol



- Mae codi lefelau cyrhaeddiad yn erbyn gostyngiad cenedlaethol mewn cyllid a chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion y Fro yn cyflwyno heriau sylweddol i'r dyfodol.
- Mae cau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn parhau i fod yn her.
- Gostyngodd nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; serch hynny, mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor gyda ffocws penodol ar NEETs Blwyddyn 13, sydd ar hyn o bryd yn 1.56%.
- Bydd lansio Strategaeth Cymraeg ac adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynllun Strategaeth Addysg Cymru yn cael effaith sylweddol ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ogystal â goblygiadau ariannol o ran darparu cefnogaeth arbenigol neu drosiannol briodol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Er y gwnaed cynnydd o ran y defnydd o ddysgu cymunedol i oedolion, mae perygl na fydd y cyfleoedd hyn yn gynaliadwy gyda llai o arian.
- Mae galw cynyddol am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a disgwyliadau cynyddol yn parhau i roi pwysau ychwanegol ar adnoddau addysg ganolog ac ar gyllidebau ysgolion unigol.
- Mae nifer yr ymwelwyr â llyfrgelloedd yn y Fro yn parhau i ostwng gyda gostyngiad o 5% i'w weld y llynedd. Rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n llyfrgelloedd cymunedol i wella atyniad ein cynnig a'n hymgysylltiad mewn perthynas ag ymweliadau corfforol a rhai ar-lein.




Mae preswylwyr Bro Morgannwg yn byw bywydau iach ac mae pobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi

Amcan Gwelliant 7: Annog a hyrwyddo dulliau actif ac iach o fyw

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn rhan annatod o wella llesiant pobl a hybu iechyd da. Mae angen mwy o bwyslais hefyd ar annog cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol i gefnogi ffyrdd iach o fyw a gwella ansawdd bywyd.

Amcan Gwelliant 8: Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw yn annibynnol

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd a diogelu ein preswylwyr mwyaf agored i niwed. Trwy weithio gyda phartneriaid, gallwn ymuno a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n rhoi anghenion pobl yn gyntaf a gwneud gwahaniaeth sylweddol i lesiant ein preswylwyr, teuluoedd a gofaluwr mwyaf agored i niwed.



Ein statws COG cyffredinol ar gyfer 'Bro Iach ac Actif' yw GWYRDD

Ein cyflawniadau yn ystod 2018/19



- Roedd y Fro yn drydydd yng Nghymru o ran nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol gydag 11,463 o ymweliadau (fesul 1,000 o'r boblogaeth) yn ystod y flwyddyn.
- Cafodd 60 o sefydliadau fudd o dros £68K o gyllid Cist Gymunedol a fydd yn effeithio ar fwy na 6000 o gyfranogwyr yn lleol ac yn cynyddu cyfranogiad mewn gweithgaredd corfforol ymhellach.



- Mae 63 o glybiau chwaraeon y Fro yn cynnig cyfleoedd chwaraeon anabledd cynhwysol neu benodol. Mae 20 o'r rhain wedi cyflawni achrediad Insport gan dynnu sylw at eu hymrwymiad i ddarparu cyfleoedd chwaraeon cynhwysol.
- Llwyddwyd i sicrhau cyllid gan Chwaraeon Cymru i gyflwyno Project Llesiant Iechyd Meddwl i gynyddu gwybodaeth ymhlith darparwyr chwaraeon lleol gyda'r nod o wneud cyfranogiad yn fwy cynhwysol. Mae 46 o unigolion eisoes wedi derbyn hyfforddiant.



- Cyflawnodd 10 Parc y Fro statws Baner Werdd. Dyfarnwyd statws Baner Werdd i 8 Parc Trefol a dau Barc Gwledig yn 2018/19 i gydnabod ein parciau a'n hardaloedd gwyrdd o ansawdd uchel.
- Sicrhawyd £81K o arian Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen chwarae gynhwysfawr ar draws y Fro gan gynnwys ystod o gynlluniau chwarae, gwaith cartref a chlybiau ar ôl ysgol a phrynu offer chwarae ac adnoddau. Cymerodd dros 10,000 o blant a phobl ifanc ran mewn gweithgareddau chwarae yn ystod y flwyddyn.



- Darparodd ein Rhaglen Dechrau'n Deg wasanaethau i 1,159 o blant a'u teuluoedd o chwech o wardiau mwyaf difreintiedig y Barri. Mynychodd 279 o blant 2-3 oed 44,626 sesiwn o ofal plant o safon ar draws 7 lleoliad gwahanol (gan gynnwys dau leoliad Cymraeg). O'r plant oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun gofal plant, manteisiodd 99% ar y cynnig.



- Mae cyfeirlyfr ar-lein DEWIS wedi'i boblogi â 1,799 o adnoddau cyhoeddedig ac mae nifer y defnyddwyr cofrestredig wedi cynyddu i 1,291 o ddefnyddwyr eleni gan ganiatáu i ni wella ymhellach y cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael i ddinasyddion.
- Gadawodd yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal gan yr Awdurdod addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith ym Mlwyddyn 11 gyda chymhwyster allanol cymeradwy.



- Rydym wedi cefnogi 64 o ddefnyddwyr gwasanaeth trwy'r project "Eich Dewis" i reoli eu gofynion gofal a chymorth, sy'n gyfystyr â darparu oddeutu 900 awr o ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn y cartref bob wythnos.
- Cefnogwyd 73% o blant i aros yn byw gyda'u teulu lle bo'n briodol gwneud hynny a dychwelodd 6.29% o'r plant a oedd yn derbyn gofal gan yr Awdurdod adref yn ystod y flwyddyn.



- Dechreuwyd ar y gwaith ar broiect gwerth £3.5m yn yr hen Brecon Court (safle llety gwarchod) i adeiladu 28 o dai tai cymdeithasol 'gofal parod'. Bydd y safle rhyng-genhedlaeth hwn yn cynnwys 9 tŷ 2 ystafell wely, 4 tŷ teulu 3 ystafell wely a 15 fflat 1 ystafell wely wedi'u cadw ar gyfer pobl hŷn neu unigolion ag anableddau neu faterion iechyd meddwl, gan alluogi byw'n annibynnol i'r rheini sydd ag anghenion isel/cymedrol.




- Mae'r galw am y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn parhau i dyfu ac yn ystod 2018/19 roedd 199 o atgyfeiriadau oedolion. Derbyniwyd 135 o atgyfeiriadau i'w hasesu a derbyniodd 74 ohonynt ddiagnosis.
- Llwyddwyd i dreialu'r cynllun 'Prynu gyda Hyder' ar draws y Fro i roi tawelwch meddwl i breswylwyr wrth ddewis crefftwr gyda'r ardystiad 'Safonau Masnach a gymeradwywyd'.

Ein heriau yn y dyfodol



- Cynnal a gwella lefelau cyfranogiad mewn gweithgaredd corfforol ar adeg lle mae adnoddau'n lleihau a gostyngiad mewn cyllid gan Chwaraeon Cymru.
- Cydbwysu'r angen i ddarparu rhaglen chwarae uchelgeisiol yn unol â'r galw cynyddol a'r pwysau ar adnoddau.
- Y capasiti a'r gallu i ateb y galw cynyddol am Wasanaethau Cymdeithasol i sicrhau y gellir diwallu anghenion. Mae niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn ogystal ag oedolion gydag anghenion mwy cymhleth sy'n rhoi mwy o bwysau ar ein gwasanaethau.
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn parhau i osod dyletswyddau a gofynion sylweddol ar awdurdodau lleol, gan roi pwysau ar ein capasiti i gyflawni'r lefel hon o newid trawsnewidiol.
- Er gwaethaf ein dull blaengar o weithio gyda phartneriaid, gall mentrau cydweithredol fod yn araf yn enwedig mewn perthynas â datblygu modelau cyflenwi gwasanaeth amgen lle mae gwasanaethau'n dibynnu fwyfwy ar gyllid grant i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau arloesol. Gall unrhyw oedi ar y lefel ranbarthol effeithio ar ein cynnydd ar integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.



Cynllunio Integredig yw'r factor allweddol wrth sicrhau llwyddiant...

..... mae'n ein galluogi i gyflawni Blaenoriaethau Ein cynllun Corfforaethol a'n Amcanion Gwella (Amcanion Llesiant) tra'n cyfrannu at ateb y Nodau Llesiant a'r pum dull o weithio. Mae'n golygu

mabwysiadu dull integredig o reoli risg, rheoli arian, cynllunio gweithlu, rheoli perfformiad a rheoli gwybodaeth.

Mae pob agwedd ar yr hyn a wnawn yn seiliedig ar ein pum ffordd o weithio.

- INTEGREIDDIO
- CYDWEITHIO
- YMGYSYLLTIAD
- ATAL
- HIRDYMROR

Ein statws COG cyffredinol ar gyfer 'Iechyd Corfforaethol' yw GWYRDD

Ein cyflawniadau yn ystod 2018/19



- Mae ein dull rhagweithiol o wella llesiant gweithwyr yn cael effaith gadarnhaol ar absenoldeb staff, sy'n parhau i ostwng. Cafwyd gwelliant yn nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn, i 9.12 diwrnod yn 2018/19 (10.14 diwrnod yn 2017/18).
- Trwy ein Fframwaith Prentisiaethau, rydym yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ac ar hyn o bryd mae gennym 20 o bobl ifanc ar gynlluniau taledig yn y Cyngor, cynnydd ar yr 18 a oedd yn eu lle y llynedd.



- Datryswyd 78% o ymholiadau cwsmeriaid i C1V ar y cyswllt cyntaf ac roedd mwy na 98% o gwsmeriaid yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon â mynediad at wasanaethau ar draws pob sianel yn ystod y flwyddyn.
- Cynhyrchwyd £92k o incwm ychwanegol trwy amrywiol weithgareddau.
- Mae ein Rhaglen Gwasanaethau Ail-lunio yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol gyda'r mwyafrif o gamau wedi'u cwblhau'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. Cyrhaeddwyd 82% o'n targed arbedion o £6.298M ar gyfer 2018/19, sy'n gadarnhaol o ystyried cymhlethdod rhai o'r gwasanaethau.
- Gwariwyd £55M ar seilwaith cyfalaf ar draws y Fro a oedd yn cynnwys gwelliannau i'n hysgoli, ail-wynebu ein ffyrdd, a datblygu projectau newydd fel y cynllun Five Mile Lane. Bydd gwella ein seilwaith lleol yn cyfrannu at dwf economaidd a Bro fwy llewyrchus.



- Trwy fabwysiadu dull mwy masnachol o reoli ein hadeiladau swyddfa, mae'r ddau gam cyntaf y Project Gofod a ddaeth i ben yn ystod 2018 wedi arbed mwy na £750k i'r Cyngor mewn costau rhedeg blynyddol.



- Mae'r Cyngor wedi uwchraddio ei stoc dai i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ddwy flynedd ynghynt na'r disgwyl yn dilyn buddsoddiad o £92m. Mae dros 3,800 o gartrefi wedi'u huwchraddio gan sicrhau bod y rhai sydd angen tai yn mwynhau gwell safon byw.
- Rydym wedi lleihau ein costau allbwn carbon ac ynni trwy drosi bron i 6,000 o oleuadau stryd mewn ardaloedd preswyl a phrifyfdd i LED. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau allyriadau CO2 y Cyngor o oddeutu 493 tonnelli y flwyddyn. Yn 2018/19, cyflawnwyd dros £100k o arbedion trwy gostau ynni is.
- Rydym wedi cychwyn rhaglen effeithlonrwydd ynni gwerth £1M i helpu i wneud ein hasedau adeiladu yn fwy effeithlon o ran ynni a sicrhau arbedion cost yn ogystal â gwella'r amgylchedd. Arbedwyd oddeutu £42k mewn costau ynni trwy'r cynllun yn 2018/19.
- Ar hyn o bryd mae 53,345 o breswylwyr wedi tanysgrifio i fwletin e-bost 'Cyswllt UnFro', 6% yn fwy na'r llynedd.
- Mae gwelliannau o ran ymarferoldeb a hyrwyddo ein gwefan wedi cynyddu'r defnydd gan breswylwyr sy'n cyrchu ein gwefan i ymgymryd â thrafodion o 40% yn 2016/17 i 68% eleni.
- Trwy ein menter 'Cael y Fro Ar-lein', mae 27 o hyrwyddwyr digidol wedi darparu 1,138 awr o hyfforddiant sgiliau digidol yn llwyddiannus i breswylwyr yn ystod y flwyddyn. Cymerodd 763 o denantiaid y cyngor ran mewn cynlluniau cynhwysiant digidol a llwyddodd 205 o ddysgwyr sy'n oedolion i gwblhau cyrsiau sgiliau digidol achrededig.
- Mae gwaith y Grŵp Tai Strategol wedi cyfrannu at gynyddu'r cyflenwad, yr ystod a'r dewis o dai sydd ar gael i deuluoedd yn y Fro. Daethpwyd â 111 eiddo preifat a ddosbarthwyd yn wag yn ôl i ddefnydd a chyflenwyd 98 o unedau tai ychwanegol. O'r 212 o anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn 2018/19, roedd 75% yn fforddiadwy.

Ein heriau yn y dyfodol



- Mae gennym hanes llwyddiannus o gyflawni cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, bydd yr angen i wneud arbedion effeithlonrwydd ac arbedion ariannol yn dod yn fwy a mwy heriol yn y blynyddoedd i ddod. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn rhagamcanu bod angen £15.714M mewn arbedion effeithlonrwydd ac arbedion eraill dros y tair blynedd nesaf o 2019/20 i 2021/22.
- Er bod presenoldeb staff wedi gwella yn 2018/19, mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn parhau i fonitro cynnydd yn agos.
- Bydd cynigion sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Diwygio Llywodraeth Leol yn parhau i effeithio ar wasanaethau'r Cyngor, yn benodol wrth nodi a mynd ar drywydd cydweithio buddiol, tymor hir.
- Bydd gweithredu ein Strategaeth Ddigidol yn heriol o ystyried cyflymder newid technolegol, y costau sy'n gysylltiedig ag ariannu mathau newydd o dechnoleg a'r effaith y mae'r Strategaeth uchelgeisiol hon yn ei chael ar yr angen i uwchsgiliau'r gweithlu.
- Er gwaethaf ein dull blaengar o weithio gyda phartneriaid, mae cydweithredu mewn perthynas â datblygu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau ar draws ystod o wasanaethau'r cyngor yn lleol ac yn rhanbarthol yn parhau i fod yn her barhaus mewn hinsawdd o adnoddau sy'n lleihau.
- Mae rheoli galw a disgwyliadau am ein gwasanaethau pan fydd adnoddau'n lleihau yn fwyfwy heriol. Mae angen ffocysu ar sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol trwy'r Rhaglen Ail-lunio.

Sut i gyfranogi

Gallwch gymryd rhan trwy ymuno â Barn y Fro (ein Panel Dinasyddion) a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau. Cwblhewch y ffurflen fer ar-lein. Mae Pwyllgorau Craffu ar agor i'r cyhoedd a gallwch gymryd rhan trwy ofyn am ystyried maes/mater gwasanaeth trwy gwblhau [Ffurflen Ystyriaeth am Adolygiad](#) neu gallwch gofrestru i siarad ar [wefan](#) y Cyngor. I wneud sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol neu i gynnig Amcanion Llesiant (Gwella) newydd, cysylltwch â ni ar: E-bost: gwelliannau@bromorgannwg.gov.uk Llythyrau: Perfformiad Corfforaethol, Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Barri, CF63 4RU Ffôn: 01446 700111